

# Cydraddoldebau a hawliau dynol ym maniffestos 2017



Efallai ei bod yn syndod bod cydraddoldebau a hawliau dynol yn nodwedd eithaf amlwg ym mhob un o faniffestos y chwe phrif blaid ar gyfer etholiad 2017. Nid yw lle yn caniatáu i mi roi'r holl fanylion yma, ond dyma rai o'r uchafbwyntiau ymysg yr ymrwymadau sydd wedi cael eu gwneud.

## Hawliau Dynol

Mae'r Blaid Geidwadol yn ymrwymo i'r Ddeddf Hawliau Dynol a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ar gyfer y senedd nesaf, ond mae'n ychwanegu y *byddwn ni'n ystyried ein fframwaith cyfreithiol ar hawliau dynol pan mae'r broses o adael yr UE yn dod i ben* (t. 37). Fodd bynnag, byddai'r lluoedd arfog yn *cael eu tynnu o gwmpasiad y Confensiwn Ewropeaidd a bydd yn amodol ar Gyfraith Gwrthdaro Arfog yn y dyfodol* (t. 42).

Mae UKIP yn addo atal erlyn aelodau o'r lluoedd arfog *am weithredoedd a gyflawnwyd wrth gwasanaethu'r Goron* (t. 46). Byddai UKIP yn *diddymu deddfwriaeth Hawliau Dynol y Blaid Lafur a thynnu'r DU o awdurdodaeth Llys Hawliau Dynol Ewrop* (t. 41) a chyflwyno Deddf Hawliau newydd ar gyfer y DU. Byddai'n *Gwarchod rhyddid crefyddol ..., ar yr amod bod y credoau hynny yn bodoli yn gadarn o fewn fframwaith cyfraith Brydeinig. Ni fyddwn yn caniatáu unrhyw fath o ffydd sydd ei hun yn anoddefgar o hawliau dynol pobl eraill* (t. 38).

Byddai Llafur, y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Blaid Werdd yn cadw'r Ddeddf Hawliau Dynol, a byddai Plaid Cymru yn *cyhoeddi siarter hawliau dynol ar gyfer Cymru er mwyn amddiffyn y Cymry yn erbyn cefndir o lywodraeth Doriaidd sy'n benderfynol o danseilio'r Ddeddf Hawliau Dynol* (t. 39).

Byddai Llafur, y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Blaid Werdd yn ymgorffori gwarchodaethau hawliau dynol ar hyd y gadwyn gyflenwi fel rhan o fargeinion masnach ar ôl gadael Ewrop. Bydd Llafur yn *penodi llysgenhadon byd-eang ymroddedig ar hawliau merched, hawliau Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol a rhyddid crefyddol* (t. 109) a bydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn penodi llysgennad dros ryddid cred.

Mae maniffesto'r Blaid Geidwadol yn cynnwys polisi manwl ynglŷn ag ymdrin â chaethwasiaeth fodern, ac mae ymrwymadau i ymdrin â'r mater yn cael eu gwneud yn ogystal gan Lafur a'r Democratiaid Rhyddfrydol.

## Ffoaduriaid a lloches

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn dweud fod y system loches bresennol *wedi'i anelu at bobl sydd ... â'r adnoddau i ddod i Brydain, yn hytrach na'r rhai hynny sydd angen ein help fwyaf. Lle bynnag y bo'n bosibl, bydd y llywodraeth yn cynnig lloches a noddfa i bobl mewn rhannau o'r byd sy'n cael eu heffeithio gan wrthdaro a gorthrwm, yn hytrach nag i'r rhai hynny sydd wedi cyrraedd Prydain. ... Byddwn ni ... yn sefydlu cynlluniau i helpu unigolion, elusennau, grwpiau ffydd, eglwysi a busnesau i ddarparu tai a chefnogaeth arall ar gyfer ffoaduriaid* (t. 40).

Mae Llafur yn addo *cwrdd â'n hymrwymadau rhyngwladol ynglŷn â'r argyfwng ffoaduriaid* (t. 112) a byddan nhw yn adolygu'r trefniadau gwasgaru. Dywed UKIP y byddai'n *cydymffurfio yn llawn â Chonfensiwn 1951 y CU sy'n ymwneud â Statws Ffoaduriaid, ac yn anrhydeddu ein hymrwymadau i geiswyr lloches dilys* (t. 33).

Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn gwneud nifer o addewidion, yn cynnwys ymestyn Cynllun Ailgartrefu Ffoaduriaid o Syria i 50,000 o bobl yn ystod y Senedd nesaf ac ailagor y Cynllun Dubs ar gyfer 3,000 o blant sydd wedi ffoi ar eu pennau eu hunain o Ewrop.

Mae'r Blaid Werdd yn addo *System fewnfudo a lloches ddyngarol sy'n cydnabod ac yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros swyddogaeth barhaus Prydain drwy achosi llif o ymfudwyr drwy'r byd* (t. 19).

## Mewnfudo

Bydd y Ceidwadwyr yn ei gwneud yn fwy anodd i'r rhai hynny gyda dyfarniadau troseddol i ddod i mewn i'r DU a byddai UKIP yn gwrthod rhoi teitheb/pasbort iddyn nhw. Dywed UKIP y *bydd teithebau ymfudwyr sy'n cyflawni troseddau sy'n arwain at ddedfryd o garchar yn cael eu diddymu a byddan nhw'n cael eu dal tan y maen nhw'n cael eu halltudio* (tt. 34, 40). Mae UKIP (t. 33) yn cynnig cynllun pasbortau a thrwyddedau gwaith manwl yn dilyn Brexit; mae'r Ceidwadwyr yn addo system newydd, ond nid ydyn nhw yn rhoi manylion amdani.

Bydd Llafur yn *datblygu ac yn gweithredu rheolau mewnfudo teg* (t. 26). Bydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn *sicrhau bod y system fewnfudo yn cael ei gweithredu yn deg ac yn effeithlon, gan reoli ffiniau yn llym* (t. 77).

Mae Plaid Cymru yn addo *Polisi mewnfudo rhesymegol sy'n gweithio i Gymru, lle gall myfyrwyr a chrewyr swyddi ddod, lle nad yw cyflogau yn cael eu gostwng a lle mae cymunedau yn cael eu gwarchod* (t. 51).

Byddai Llafur, y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Blaid Werdd i gyd yn gwarantu yn unochrog hawliau dinasyddion yr UE sydd yn y DU ar hyn o bryd. Byddai UKIP yn gwarantu *hawliau dinasyddion yr UE sy'n parchu'r gyfraith a oedd yn byw yn y DU cyn i Erthygl 50 gael ei thanio* (t. 34) ynghyd â dinasyddion yr UE a oedd yn gweithio mewn iechyd a gofal cymdeithasol (t. 20). Fodd bynnag, *ni fydd gan ddinasyddion yr UE a ddaeth i'r DU ar ôl 29ain Mawrth 2017 yr hawl awtomatig i aros, a phan yr ydym ni yn gadael yr UE, byddan nhw yn colli'r holl fuddion, yn cynnwys gofal iechyd nad yw'n fater brys* (t. 34).

Addewid y Ceidwadwyr yw y *Byddwn ni ... yn diogelu hawliau dinasyddion yr UE ym Mhrydain a dinasyddion Prydeinig yn y UE* (t. 36).

## Integreiddio a gwrth-eithafiaeth

Mae'r Ceidwadwyr yn addo ymdrin ag *eithafiaeth, yn arbennig felly eithafiaeth Islamaidd, drwy ystyried pan dramgwyddau troseddol newydd a all fod angen eu creu, a pha dramgwyddau gwaethygedig newydd a all fod angen eu sefydlu ... A byddwn ni'n sefydlu Comisiwn ar gyfer Gwrthsefyll Eithafiaeth ... er mwyn dod o hyd i bolisiau i orchfygu eithafiaeth a hyrwyddo gwerthoedd lluosgaethol* (tt. 52-3). Yn ogystal, byddan nhw'n *datblygu strategaeth integreiddio newydd, a fydd yn ceisio helpu pobl mewn cymunedau mwy ynysig i ymgysylltu â'r byd ehangach, helpu merched yn y gweithle yn benodol, a dysgu mwy o bobl i siarad Saesneg* (t. 52).

Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol a'r Blaid Werdd yn addo rhoi terfyn ar strategaeth *Prevent* a'i disodli gyda strategaethau cymunedol; byddai Llafur yn adolygu ei gweithredu, ac yn siarad o blaid *strategaeth wleidyddol amlgenhedlig hirdymor, a fyddai'n cael ei harwain gan actorion rhanbarthol, er mwyn ymdrin â lledaeniad yr eithafiaeth* (t. 108).

Bydd UKIP yn *rhoi prawf ar agweddau cymdeithasol ymgeiswyr mewnfudo er mwyn meithrin cydlyniad cymunedol a gwarchod gwerthoedd Prydeinig craidd* (t. 34) a byddan nhw yn ... *llunio cynigion i chwalu cynghorau sharia* (t. 35). *Byddan nhw'n rhoi prawf ar wahanu carcharorion Islamaidd ac yn gwrthod*

58 Heol Richmond, Caerdydd CF24 3AT | 58 Richmond Road, Cardiff CF24 3AT | 029 2046 4378  
gethin@cytun.cymru | www.cytun.cymru

Mae Cytûn yn gwmni cofrestredig yng Nghymru a Lloegr | Rhif: 5853982 | Enw cofrestredig: "Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Limited" | Mae Cytûn yn elusen gofrestrdedig | Rhif: 1117071

Cytûn is a registered company in England and Wales | Number: 5853982 | Registered name: "Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Limited" | Cytûn is a registered charity | Number: 1117071

*mynediad i garchardai i unrhyw imam, pregethwr neu unigolyn a wyddys sy'n hyrwyddo safbwyntiau croes i werthoedd Prydeinig* (t. 41).

## **Deddfwriaeth Cydraddoldebau**

Mae pedair plaid yn addo cryfhau cyfraith gydraddoldebau. Byddai'r Ceidwadwyr Cymreig yn ymestyn y Ddeddf Gydraddoldeb i *gyflyrau iechyd meddwl sy'n episodig ac yn gyfnewidiol* (t. 54); bydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn *ymestyn gwarchodaeth o ailbennu rhywedd mewn cyfraith gydraddoldeb* (t. 71) ac yn ymestyn y Ddeddf Gydraddoldebau i gynnwys cwmnïau gyda mwy na 250 o weithwyr a gwahardd gwahaniaethu ar sail castau, a byddai'n diogelu Confensiwn yr UE ar Hawliau'r Plentyn mewn cyfraith. Byddai Llafur yn *cryfhau mynediad at gyfiawnder ar gyfer pobl anabl drwy wella Deddf Cydraddoldeb 2010 gan alluogi gwahaniaethu yn y gwaith i gael ei herio* (t. 52) a byddai'n gwneud salwch terfynol yn nodweddiadol warchoddedig. Byddai'r Blaid Werdd yn ymestyn cydraddoldeb ar gyfer *pobl LGBTQIA+* (t. 21). Fodd bynnag, y mae UKIP yn mynegi ei gwrthwynebiad i *nifer fawr o deddfwriaethau ynglŷn â ffydd, cenedl a chydraddoldebau* (t. 32).

Mae'r Ceidwadwyr, Llafur a'r Democratiaid Rhyddfrydol i gyd yn addo ymdrin ag anghyfartaleddau mewn recriwtio a chyflogau rhwng pobl o wahanol darddiadau ethnig, yn arbennig felly yn y gwasanaethau cyhoeddus a chyflogwyr mawr. Mae Llafur yn cynnig amrediad o bolisiau cyflogaeth sy'n cynnwys pob maes o gydraddoldeb.

Bydd y Ceidwadwyr yn *deddfu ar gyfer gorchymyn newidiadau mewn ymarferion heddlu os nad yw 'stopio a chwilio' yn cael ei dargedu yn well* (t. 54) yn ogystal â'r *defnydd anghyfartal o rym yn erbyn pobl Dduon, Asiaidd a phobl lleiafrifoedd ethnig yn y carchar, mewn sefydliadau tramgwyddwyr ifanc ac mewn unedau iechyd meddwl diogel*. Fodd bynnag, byddai UKIP yn *adfer pwerau Stopio a Chwilio i'r heddlu* (t. 40).

Bydd Llafur yn *rhoi terfyn ar hiliaeth a gwahaniaethiad yn erbyn cymunedau Sipsi, Roma a Theithwyr a bydd yn gwarchod yr hawl i arwain ffyrdd crwydrol o fyw* (t. 102), tra y byddai UKIP yn ei gwneud yn *drosedd i sefydlu safle teithwyr heb ganiatâd* (t. 41).

Byddai Llafur yn gwella'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, byddai'r Democratiaid Rhyddfrydol yn ei adolygu a byddai'r Blaid Werdd yn adfer ei gyllid.

## **Pobl gydag Anableddau**

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn addo y *byddwn yn dod o hyd i waith i 1 filiwn fwy o bobl gydag anableddau dros y ddeng mlynedd nesaf* (t. 55) ac mae'n addo polisiau i wella mynediad i waith a chyfleusterau lleol.

Mae UKIP yn *addo ymestyn hawliau'r anabl* (t. 31) a gwneud newidiadau i fudd-daliadau anabledd ac Aseidiadau Gallu i Weithio. Yn ogystal, mae Llafur yn addo gwneud nifer o newidiadau i'r driniaeth o anableddau yn y system Nawdd Cymdeithasol, yn cynnwys *asesiad cyfannol, personol* newydd (t. 51). Dywed Plaid Cymru y *byddwn ni'n cefnogi ac yn annog pobl anabl i waith, heb wynebu'r bygythiad o sancsiynau* (t. 26).

Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn addo *cynyddu'r mynediad i leoedd cyhoeddus a thrafnidiaeth gyhoeddus a ... dod â darpariaethau Deddf Cydraddoldeb 2010 ynglŷn â gwahaniaethu gan gerbydau hurio preifat a thacsis i rym* (t. 71).

## **Trosedd casineb, trais yn erbyn merched a thrais domestig**

Bydd Llafur yn cryfhau'r gyfraith ynglŷn â throseddau casineb yn erbyn Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol a chyflwyno cynlluniau adrodd a gweithredu blynyddol ynglŷn â throseddau casineb a thrais yn erbyn pobl anabl. Mae'r Ceidwadwyr yn addo *gwthio ein cynllun ar gyfer ymdrin â throseddau casineb a gyflawnwyd ar sail crefydd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth drawsryweddol* (t. 45).

58 Heol Richmond, Caerdydd CF24 3AT | 58 Richmond Road, Cardiff CF24 3AT | 029 2046 4378  
gethin@cytun.cymru | www.cytun.cymru

Mae Cytûn yn gwmni cofrestredig yng Nghymru a Lloegr | Rhif: 5853982 | Enw cofrestredig: "Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Limited" | Mae Cytûn yn elusen gofrestrdedig | Rhif: 1117071

Cytûn is a registered company in England and Wales | Number: 5853982 | Registered name: "Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Limited" | Cytûn is a registered charity | Number: 1117071

*Bydd Llywodraeth Geidwadol yn llunio Bil ynglŷn â Thrais a Cham-drin Domestig ... er mwyn cydgyfnerthu gorchmynion atal a gwarchod sifil a throseddol a darparu ar gyfer trosedd gwaethygedig newydd os yw'r ymddygiad wedi'i anelu at blentyn, sefydlu Comisiynydd Trais Domestig a Cham-drin ac adolygu'r cyllid ar gyfer llochesau a thenantiaethau ar gyfer dioddefwyr (tt. 55-6). Yn ogystal, byddai Llafur yn penodi Comisiynydd Trais yn Erbyn Merched, yn datblygu'r Cynghorydd Cenedlaethol yng Nghymru, a byddai'n darparu cyllid canolog ar gyfer llochesau i ferched a chanolfannau argyfwng trais. Byddai'r Democratiaid Rhyddfrydol yn adolygu'r ymchwiliad, yr erlyniad, y gweithdrefnau a'r rheolau o dystiolaeth mewn achosion o gam-drin rhywiol a domestig (t. 75).*

Byddai UKIP yn trefnu gwiriadau blynyddol gorfodol ar gyfer genethod sy'n cael eu nodi i fod mewn risg o anffurfio organau cenhedlu benywod (t. 36).

Byddai'r Blaid Werdd yn gweithredu strategaeth drwy'r DU er mwyn ymdrin â thrais yn seiliedig ar ryw, yn cynnwys trais domestig, trais a cham-drin rhywiol, anffurfio organau cenhedlu benywod a masnachu pobl (t. 19).

## **Ymarferion Diwylliannol**

Bydd UKIP yn gwahardd gwsigo'r *niqab* a'r *burqa* mewn lleoedd cyhoeddus (t. 37) a byddai'n cyhoeddi dogfennau swyddogol yn Saesneg yn unig a (*Ile y bo'n briodol*) yn Gymraeg (t. 38).

Byddai'r Democratiaid Rhyddfrydol yn gwarantu rhyddid i bobl wisgo gwisg grefyddol neu wisg ddiwylliannol ac ymdrin â'r amllder cynyddol o droseddau casineb Islamoffobig (t. 71).

Byddai UKIP angen labelu *bwyd sydd wedi cael ei ladd yn ddefodol fel halal neu shechita* (t. 55) a gwahardd dulliau Iddewig a Mwslемаidd o ladd sy'n cael ei wneud gan unigolion anghymwys mewn adeiladu heb eu rheoleiddio, ac ymdrin â throseddau o'r fath yn llym.